WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o apwyntiadau dilynol cleifion allanol – asesiad o gynnydd – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 181A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Yr unigolyn a gyflawnodd y gwaith hwn oedd Sara Utley.

# Cynnwys

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth ymateb i argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad yn 2015, ond mae angen parhau i wella sut y mae’n nodi risgiau clinigol, cynyddu cyflymder gwella’r gwasanaeth a gwerthuso newidiadau’r gwasanaeth yn llawn.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Ein canfyddiadau 6

Argymhellion 7

Atodiadau

Atodiad 1 – cynnydd y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion yn 2015 8

# Adroddiad Cryno

## Cyflwyniad

1 Mae gwasanaethau cleifion allanol yn gymhleth ac yn amlweddog ac yn cyflawni rhan hanfodol o lwybrau cleifion. Mae perfformiad gwasanaethau cleifion allanol yn effeithio'n fawr ar ganfyddiad y cyhoedd o ansawdd cyffredinol, ymatebolrwydd ac effeithlonrwydd byrddau iechyd.

2 Mae adrannau cleifion allanol yn gweld mwy o gleifion bob blwyddyn nag unrhyw adran arall mewn ysbyty, wrth i ryw dair miliwn o gleifion ddod trwy'r drysau bob blwyddyn[1], mewn amryw o leoliadau ledled Cymru. Mae apwyntiad dilynol yn bresenoldeb mewn adran cleifion allanol yn dilyn presenoldeb cychwynnol neu cyntaf.

3 Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, mae apwyntiadau dilynol cleifion allanol wedi cyfrif am ryw dri chwarter o'r holl weithgareddau cleifion allanol ledled Cymru. Apwyntiadau dilynol cleifion allanol yw'r rhan fwyaf o holl weithgarwch cleifion allanol ac mae potensial y bydd hyn yn cynyddu'n fwy wrth i'r boblogaeth heneiddio a all arwain at gynnydd mewn cyflyrau cronig a chyd-forbidrwydd. Nid yw apwyntiadau dilynol sy'n rhan o'r pecyn triniaeth ei hun, er enghraifft, gweinyddu meddyginiaeth neu asesu cyflwr claf, yn destun y targedau prydlondeb a bennir gan Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, caiff y rhain eu rheoli o fewn cyd-destun canllawiau clinigol a dyddiadau dilynol targed a bennir yn lleol.

4 Ers mis Ionawr 2015, bu'n ofynnol i bob bwrdd iechyd gyflwyno ffurflen fisol i Lywodraeth Cymru yn nodi nifer y cleifion sy'n aros (ag oedi) ar ddiwedd pob mis am apwyntiad dilynol cleifion allanol ar sail eu dyddiad targed[2]. Yn rhan o Fframwaith Canlyniadau GIG Cymru 2016 - 2017[3], mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys targed canlyniad diwygiedig i leihau nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol cleifion allanol sydd heibio i'r dyddiad targed a gytunwyd.

5 Yn rhan o raglen archwilio 2015, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad o apwyntiadau dilynol cleifion allanol ym mhob un o'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Ceisiodd yr adolygiad ateb y cwestiwn 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn effeithiol?'

6 Gwnaethom ni adrodd ein canfyddiadau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (Bwrdd Iechyd) ym mis Hydref 2015, a dod i'r casgliad bod y '...Bwrdd Iechyd yn cynyddu cywirdeb ei restr aros o apwyntiadau dilynol, ond mae nifer y cleifion sy'n wynebu oedi ar gynnydd, ac mae angen iddo wneud mwy i asesu risgiau clinigol, gwella prosesau gweinyddol ac ymdrin ag oedi wrth gynnal apwyntiadau dilynol.' Wrth gyrraedd y casgliad hwn, gwelsom ni:

[1] Ffynhonnell: StatsCymru, Data cryno ar gleifion allanol dan ofal meddygon ymgynghorol.

[2] Y dyddiad targed yw'r dyddiad y dylai'r claf fod wedi derbyn ei apwyntiad dilynol.

[3] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 023

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynyddu cywirdeb ei restr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol, ond mae angen iddo asesu risgiau clinigol ac ymwreiddio gwelliannau i brosesau;
- Mae nifer y cleifion sy'n disgwyl am apwyntiad dilynol a nifer y cleifion sy'n wynebu oedi ar gynnydd, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella'r trefniadau ar gyfer adrodd ynghylch risgiau clinigol; a
- Er bod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i ddatblygu gwasanaethau yn y gymuned, nid yw'r trefniadau gweithredol presennol yn cael rhyw lawer o effaith o ran lleihau nifer yr apwyntiadau dilynol a gynhelir yn hwyr, a bydd moderneiddio gwasanaethau'n her.

7 Yn 2015, gwnaeth ein hadroddiad yr argymhellion canlynol, a nodir yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: argymhellion a wnaed yn 2015

| Argymhellion | |
|---|---|
| **Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol** | |
| A1 | Sicrhau bod digon o wybodaeth am y risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag oedi wrth gynnal apwyntiadau dilynol yn cael ei hadrodd i'r is-bwyllgorau perthnasol, fel bo modd rhoi sicrwydd i'r Bwrdd drwy drefniadau monitro a chraffu. |
| **Gwella prosesau** | |
| A2 | Sicrhau cydymffurfio â phrosesau gweinyddu ac archebu diwygiedig ar draws y sefydliad er mwyn osgoi unrhyw waith diangen i ddilysu cofnodion cleifion o'r gorffennol. |
| **Moderneiddio gwasanaethau cleifion allanol** | |
| A3 | Gwerthuso newidiadau i wasanaethau a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Iechyd er mwyn ymdrin ag oedi wrth gynnal apwyntiadau dilynol, fel bo modd monitro effaith ac ymyrryd mewn modd amserol os nad yw'r effeithiau disgwyliedig yn cael eu sicrhau. |
| **Trefniadau gweithredol** | |
| A4 | Datblygu trefniadau gweithredol i ymdrin â'r ôl-groniad o apwyntiadau dilynol lle ceir oedi, yn enwedig yr arbenigeddau neu'r cyflyrau clinigol hynny lle bo'n debygol yr achosir niwed i gleifion sy'n wynebu oedi. |
| A5 | Proffilio gostyngiadau mewn apwyntiadau dilynol er mwyn i'r Bwrdd Iechyd allu monitro cynnydd ac effaith trefniadau gweithredol. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

8 Yn rhan o'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2016, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys gwaith lleol i dracio cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i weithredu ar yr argymhellion a wnaed yn Adolygiad o apwyntiadau dilynol cleifion allanol 2015

Dechreuodd y diweddariad ar gynnydd hwn ym mis Tachwedd 2016 gan ofyn y cwestiwn canlynol: **A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud digon o gynnydd mewn ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad gwreiddiol?**

9 Wrth gynnal y diweddariad hwn ar gynnydd, rydym ni wedi:

- adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys adroddiadau i'r bwrdd a phwyllgorau;
- cynnal dadansoddiadau lefel uchel o ddata'r Bwrdd Iechyd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru o ran apwyntiadau dilynol cleifion allanol; a
- chyfweld â nifer o staff y Bwrdd Iechyd i drafod cynnydd, materion presennol a heriau'r dyfodol.

10 Mae crynodeb o'n canfyddiadau ar gael yn yr adran ganlynol, ac mae gwybodaeth fanylach yn Atodiad 1.

# Ein canfyddiadau

11 Ein casgliad cyffredinol yw bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth ymateb i argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad yn 2015, ond mae angen parhau i wella sut y mae'n nodi risgiau clinigol, cynyddu cyflymder gwella'r gwasanaeth a gwerthuso newidiadau'r gwasanaeth yn llawn.

12 I grynhoi, mae statws y cynnydd ar gyfer pob un o'r argymhellion blaenorol wedi'i nodi yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: statws argymhellion 2015

| Cyfanswm yr argymhellion | Gweithredwyd | Ar waith | Yn hwyr | Wedi'u disodli |
|---|---|---|---|---|
| 5 | 1 | 4 | | - |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

13 Gwelsom fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd ar yr holl argymhellion;

- Mae lefel y craffu ar ôl-groniad apwyntiadau dilynol wedi cynyddu, a cheir ymwybyddiaeth dda yn y Bwrdd Iechyd cyfan. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi targedu meysydd â'r lefelau uchaf o ôl-groniad apwyntiadau dilynol, ni fu pwyslais ar lefel cyflwr clinigol. Fodd bynnag, o fewn cyfarwyddiaethau, ceir ymwybyddiaeth o feysydd lle mae'r risg fwyaf o niwed na ellir ei wella ac mae timau yn gweithio'n galed i reoli'r galw. Ceir ymwybyddiaeth o systemau cofnodi rheoli risg i gofnodi digwyddiadau.
- Mae'r gwaith dilysu ôl-weithredol ar gyfer cleifion yn yr ôl-groniad apwyntiadau dilynol yn parhau, fodd bynnag mae'r system newydd ar gyfer cleifion allanol sy'n cael ei chyflwyno mewn meysydd arbenigedd dethol yn

dechrau gwella gwybodaeth cleifion. Mae gan gyfarwyddiaethau fynediad at system dadansoddi data hefyd sy'n gwella gwybodaeth am berfformiad, a dylai alluogi gwell rheolaeth a dirnadaeth o berfformiad cyfarwyddiaeth er mwyn gallu ymdrin â materion yn brydlon.

- Mae gwella apwyntiadau cleifion allanol yn parhau i fod yn bwyslais ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Yn unol â hyn, mae meysydd arbenigedd wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau i fynd i'r afael â'r galw am apwyntiadau dilynol cleifion allanol. Fodd bynnag, hyd yn hyn ni fu gwerthusiad sylfaenol sy'n tynnu ynghyd y newidiadau gwasanaeth a weithredwyd.
- Mae arbedion rhyngweithredol, gwelliannau a buddsoddiad â phwyslais yn arwain at ostyngiad graddol mewn oedi. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio ar ôl-groniad oedi ond mae angen iddo ganolbwyntio ar y dull gweithredu system gyfan o foderneiddio gwasanaethau i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn dechrau digwydd mewn nifer bach o feysydd arbenigedd, ond mae angen gwell graddfa, cyflymdra ac ymglymiad clinigwyr/gwasanaeth.

14 Nid ydym wedi gwneud rhagor o argymhellion. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i wneud cynnydd wrth ymdrin â'r argymhellion hynny sydd ar waith.

# Argymhellion

Arddangosyn 3: argymhellion

| **Argymhellion 2015 sy'n parhau** | |
|---|---|
| **Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol** | |
| A1 | Sicrhau bod digon o wybodaeth am y risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag oedi wrth gynnal apwyntiadau dilynol yn cael ei hadrodd i'r is-bwyllgorau perthnasol, fel bo modd rhoi sicrwydd i'r Bwrdd drwy drefniadau monitro a chraffu. |
| **Gwella prosesau** | |
| A2 | Sicrhau cydymffurfio â phrosesau gweinyddu ac archebu diwygiedig ar draws y sefydliad er mwyn osgoi unrhyw waith diangen i ddilysu cofnodion cleifion o'r gorffennol. |
| **Moderneiddio gwasanaethau cleifion allanol** | |
| A3 | Gwerthuso newidiadau i wasanaethau a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Iechyd er mwyn ymdrin ag oedi wrth gynnal apwyntiadau dilynol, fel bo modd monitro effaith ac ymyrryd mewn modd amserol os nad yw'r effeithiau disgwyliedig yn cael eu sicrhau. |
| **Trefniadau gweithredol** | |
| A4 | Datblygu trefniadau gweithredol i ymdrin â'r ôl-groniad o apwyntiadau dilynol lle ceir oedi, yn enwedig yr arbenigeddau neu'r cyflyrau clinigol hynny lle bo'n debygol yr achosir niwed i gleifion sy'n wynebu oedi. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 1

## Cynnydd y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion yn 2015

Arddangosyn 4: asesiad o gynnydd

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer cyflawni | Statws | Crynodeb o gynnydd |
|---|---|---|---|
| **Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol** | | | |
| A1 Sicrhau bod digon o wybodaeth am y risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag oedi wrth gynnal apwyntiadau dilynol yn cael ei hadrodd i'r is-bwyllgorau perthnasol, fel bo modd rhoi sicrwydd i'r Bwrdd drwy drefniadau monitro a chraffu. | Mawrth 2016 | Ar waith | Nododd yr adolygiad gwreiddiol yn 2015 fod angen i'r Bwrdd Iechyd ehangu'r wybodaeth a adroddir i'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau er mwyn iddo fod yn ymwybodol o faint o oedi sydd ynghyd â natur glinigol yr oedi o ran apwyntiadau dilynol cleifion allanol.<br>Ers ein hadolygiad mae lefel y craffu a'r pwyslais gan y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu. Ceir awydd clir i wella'r sefyllfa o ran apwyntiadau dilynol a chyflwynir gwybodaeth fanwl o ran perfformiad presennol i'r pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu. Mae'r pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg wedi bod yn craffu ar berfformiad y Bwrdd Iechyd hefyd.<br>Fodd bynnag, er bod y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar y meysydd lle ceir yr ôl-groniad mwyaf o apwyntiadau dilynol, nid yw wedi llunio asesiad risg hyd yn hyn ar gyfer apwyntiadau dilynol cleifion allanol i nodi'r amodau clinigol pan allai oedi o ran apwyntiadau arwain at niwed.<br>Gwnaeth papur diweddar i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg geisio darparu sicrwydd o ran y risgiau clinigol i gleifion ar y rhestr apwyntiadau dilynol, fodd bynnag nid oedd yn diwallu anghenion y pwyllgor, ac mae aelodau annibynnol wedi gofyn i'r tîm edrych unwaith eto ar y papur a'i ailgyflwyno. Mae hyn wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2017. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer cyflawni | Statws | Crynodeb o gynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'i system Datix i nodi unrhyw gleifion sydd wedi cael niwed o ganlyniad i oedi mewn apwyntiadau dilynol, a defnyddir y dulliau hyn yn ôl yr angen.<br>Fodd bynnag, er gwaethaf diffyg asesiad ffurfiol o risg glinigol, mae'n amlwg o fewn y meysydd arbenigedd bod pwyslais ar y meysydd clinigol a all achosi'r niwed clinigol mwyaf. Er enghraifft, mae'r adran Offthalmoleg yn glir am y cyflyrau lle ceir y potensial mwyaf am niwed, ac mae'n cymryd camau i leihau'r risg i gleifion. Pan nodwyd niwed, mae'n cofnodi ac yn adrodd hyn i Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn sy'n ofynnol.<br>Mae gwaith yn parhau yn y maes hwn. Fodd bynnag, un maes i'w nodi yw'r pwyslais sy'n parhau ar yr ôl-groniad o apwyntiadau dilynol gan aelodau annibynnol a'r tîm rheoli gweithredol. Mae'n amlwg bod hyn yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd, a bydd yn parhau i fod yn bwyslais. |

| Argymhelliad | | Dyddiad targed ar gyfer cyflawni | Statws | Crynodeb o gynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella prosesau** | | | | |
| A2 | Sicrhau cydymffurfio â phrosesau gweinyddu ac archebu diwygiedig ar draws y sefydliad er mwyn osgoi unrhyw waith diangen i ddilysu cofnodion cleifion o'r gorffennol. | Ebrill 2016 | Ar waith | Adroddodd yr adolygiad gwreiddiol fod y Bwrdd Iechyd yn cynnal gweithgareddau dilysu ôl-weithredol diangen a bod hyn yn bwysau ychwanegol ar gapasiti y gellid ei osgoi.<br>Yn anffodus, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal gweithgareddau dilysu ôl-weithredol o hyd. Mae'r ffigurau diwethaf a adroddwyd ym mis Ebrill 2017 yn dangos mai'r nifer presennol o gleifion heb ddyddiad targed oedd 1,129, fodd bynnag mae hyn yn welliant sylweddol ar yr un cyfnod y llynedd pan mai 3,509 oedd y nifer. Mae'r pwyslais ar y maes hwn yn parhau yn y Bwrdd Iechyd.<br>Mae gwaith yn parhau er mwyn gwella'r maes hwn. Yn rhan o'r thema gwella gwasanaethau cleifion allanol, mae meddalwedd newydd wedi'i chyflwyno i glinigwyr er mwyn eu galluogi i gofnodi canlyniadau eu hymgynghoriadau yn y fan a'r lle. Er ei bod wedi'i chyflwyno i nifer bach o feysydd arbenigedd yn unig, mae gan y system y potensial i wella prosesau cofnodi canlyniadau cleifion, a fydd yn cefnogi ansawdd data cleifion o ran apwyntiadau dilynol.<br>Cofnodir data perfformiad trwy'r system Qlik Sense hefyd. Mae'r offer dadansoddi data hwn yn galluogi cyfarwyddiaethau a chlinigwyr i holi amrywiaeth eang o ddata i gefnogi prosesau rheoli o ddydd i ddydd a gwelliant parhaus. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer cyflawni | Statws | Crynodeb o gynnydd |
|---|---|---|---|
| **Moderneiddio gwasanaethau cleifion allanol** | | | |
| A3 Gwerthuso newidiadau i wasanaethau a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Iechyd er mwyn ymdrin ag oedi wrth gynnal apwyntiadau dilynol, fel bo modd monitro effaith ac ymyrryd mewn modd amserol os nad yw'r effeithiau disgwyliedig yn cael eu sicrhau. | Mehefin 2016 | Ar waith | Edrychodd ein hadolygiad gwreiddiol ar waith y Bwrdd Iechyd o ran moderneiddio gwasanaethau cleifion allanol. Gwnaethom ni adrodd bod y Bwrdd Iechyd yn rhoi trefniadau gweithredu tymor byr ar waith yn ogystal â dull gweithredu tymor hwy o foderneiddio gwasanaethau cleifion allanol.<br>Mae gwella gwasanaethau cleifion allanol yn parhau i fod yn bwyslais ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae'r thema gwella gwasanaethau cleifion allanol wedi'i chynnwys yn y thema gofal a gynlluniwyd a'r dull cyflawni ar gyfer hyn yw'r Grŵp Gofal wedi'i Drefnu. Penodiad diweddar arall yw cyfarwyddwr meddygol cynorthwyol sy'n gyfrifol am Gynhyrchiant ac a fydd yn cefnogi'r cyfarwyddiaethau.<br>Yn unol â hyn, mae meysydd arbenigedd wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau i fynd i'r afael â'r galw am apwyntiadau dilynol cleifion allanol. Caiff perfformiad y gweithgareddau hyn ei fonitro trwy'r cynlluniau galw a chapasiti lleol. Fodd bynnag, hyd yn hyn ni fu gwerthusiad sylfaenol sy'n tynnu ynghyd y newidiadau gwasanaeth a weithredwyd. |

| Argymhelliad | | Dyddiad targed ar gyfer cyflawni | Statws | Crynodeb o gynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **Trefniadau gweithredol** | | | | |
| A4 | Datblygu trefniadau gweithredol i ymdrin â'r ôl-groniad o apwyntiadau dilynol lle ceir oedi, yn enwedig yr arbenigeddau neu'r cyflyrau clinigol hynny lle bo'n debygol yr achosir niwed i gleifion sy'n wynebu oedi. | Mawrth 2016 ac yn parhau | Ar waith | Daeth ein hadolygiad yn 2015 i'r casgliad, er bod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i ddatblygu gwasanaethau yn y gymuned, nad yw'r trefniadau gweithredol presennol yn cael rhyw lawer o effaith o ran lleihau nifer yr apwyntiadau dilynol a gynhelir yn hwyr, a bydd moderneiddio gwasanaethau'n her.<br>O fewn meysydd arbenigedd a chyfarwyddiaethau, ceir amrywiaeth o weithgareddau ar waith i gyflawni capasiti mwyaf posibl y Bwrdd Iechyd. Cawsom ein cyfeirio at ffyrdd newydd o weithio, er enghraifft ym maes Anadlu lle mae nyrs arbenigol yn brysbennu atgyfeiriadau er mwyn nodi cleifion y gallai nyrs ymdrin â nhw yn lle meddyg ymgynghorol, ac felly'n rhyddhau capasiti. Yn yr adran Offthalmoleg, mae optometryddion cymunedol yn cael eu defnyddio i ddarparu apwyntiadau dilynol a chapasiti ychwanegol. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau yn addawol, ac mae'n dangos ymrwymiad staff yn y gwasanaethau i gyflawni'r effeithlonrwydd mwyaf posibl. Caiff llwyddiant y mentrau hyn ei fonitro trwy'r trefniadau monitro perfformiad rheolaidd sydd ar waith, ac mae'n cyfrannu at y cynlluniau galw a chapasiti sydd gan y gwasanaethau.<br>Fodd bynnag, er gwaethaf yr enghreifftiau hyn o drefniadau da, bu llai o sylw i newid trawsnewidiol i fodelau cleifion allanol. Caiff hyn ei gydnabod yn y Bwrdd Iechyd, a chydnabyddir bod angen archwilio ffyrdd newydd o weithio a phwyslais ar newid systemau cyfan, trwy edrych ar y broses gyfan o reoli atgyfeiriadau i ryddhau cleifion. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer cyflawni | Statws | Crynodeb o gynnydd |
|---|---|---|---|
| **Trefniadau gweithredol** | | | |
| A5 Proffilio gostyngiadau mewn apwyntiadau dilynol er mwyn i'r Bwrdd Iechyd allu monitro cynnydd ac effaith trefniadau gweithredol. | Mai 2015 | Wedi'i gwblhau | Mae cynlluniau galw a chapasiti ar waith mewn cyfarwyddiaethau unigol. Caiff y rhain eu dadansoddi i lefel is-arbenigedd. Mae'r rhain yn amlinellu'n glir y capasiti yn y gyfarwyddiaeth ac yn gwneud cysylltiad clir rhwng capasiti, adnoddau ychwanegol a ffyrdd newydd o weithio. Mae cyfarwyddiaethau yn monitro perfformiad eu llwybrau yn wythnosol, ac yn sicrhau eu bod yn cyflawni eu proffiliau a nodir yn y cynlluniau galw a chapasiti. Caiff y cynlluniau eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol. Ceir ymwybyddiaeth ym mhob maes o'r cynlluniau galw a chapasiti hyn, ac o fewn timau trefnu apwyntiadau, mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i dempledi clinigol gael eu cytuno â'r cyfarwyddiaethau i sicrhau y deellir ac yr ystyrir unrhyw effaith ar y cynlluniau galw a chapasiti.<br>Atgyfnerthir y gwaith hwn gan systemau da i fonitro perfformiad (Qlik Sense) sy'n galluogi prosesau monitro amserol ar lefel meddyg ymgynghorol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro'r trefniadau hyn. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru